Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Knelston
# Reynoldston
# Gŵyr
# Abertawe
# SA3 1AR

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 29/11/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Knelston ym Mhenrhyn Gŵyr yn awdurdod lleol Abertawe. Mae 127 o ddisgyblion tair i un ar ddeg oed yn yr ysgol, gan gynnwys 18 yn y ddarpariaeth feithrin ran-amser. Ceir chwech o ddosbarthiadau prif ffrwd, gan gynnwys tri dosbarth oedrannau cymysg.

Nid oes unrhyw ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd. Daw ychydig iawn o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig ac maent yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae'r ysgol wedi nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan ychydig islaw 13% o ddisgyblion, sy'n is o lawer na chyfartaledd Cymru. Mae datganiad o anghenion addysgol arbennig gan ychydig iawn o ddisgyblion.

Ym Mai 2011 y cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf. Ymgymerodd y pennaeth presennol â'i swydd ym Medi 2016. Mae'r dirprwy bennaeth dros dro wedi bod yn ei swydd ar sail ran-amser er Ebrill 2016, a sail amser llawn er Medi 2016.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Knelston yn 2016-2017 yw £3,658. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Abertawe yw £5,232 a'r lleiafswm yw £2,703. Mae Ysgol Gynradd Knelston yn safle 21 o'r 79 ysgol gynradd yn Abertawe o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, ac maent yn gwybod at bwy i droi i gael cymorth os oes angen
- Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn eithriadol
- Mae athrawon yng nghyfnod allweddol 2 yn cynllunio ystod addas o weithgareddau diddorol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda
- Mae'r ysgol yn cynllunio ystod o raglenni ymyrraeth yn llwyddiannus i gefnogi anghenion disgyblion unigol yn dda
- Yn y mwyafrif o ddosbarthiadau, lle mae'r addysgu yn gyson dda neu'n well, mae gwersi yn cyfrannu'n llwyddiannus at ennyn diddordeb a brwdfrydedd disgyblion
- Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd croesawgar a gofalgar sy'n addysgu disgyblion i ddangos gofal a pharch at ei gilydd ac oedolion
- Mae ethos cynhwysol yn yr ysgol, ac mae'n cynnig cyfle cyfartal i bawb
- Mae'r ardal awyr agored yn adnodd cyffrous iawn sy'n darparu amgylchedd ysgogol ac amrywiol i gyfoethogi dysgu'r disgyblion

Fodd bynnag:

- Nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni gystal ag y gallent
- Ar draws yr ysgol, mae cynnydd mewn ysgrifennu yn amrywio gormod
- Nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn ddigon da yn gyson mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm
- Dim ond digonol yw cyfraddau presenoldeb disgyblion
- Mae'r ystod o brofiadau dysgu creadigol ac ysgogol ar gyfer llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn anghyson ac yn gyfyngedig ar brydiau
- Nid yw asesiadau athrawon bob amser yn cyfateb i'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn gwersi ac mewn llyfrau

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol gan y pennaeth sydd newydd ei benodi
- Mae'r corff llywodraethol yn dechrau chwarae rhan fwy strategol yn arfarnu effaith camau a gymerir gan yr ysgol, ac maent yn fwy gwybodus ynglŷn â pherfformiad disgyblion

- Mae adroddiad hunanarfarnu diweddaraf yr ysgol ar safonau yn arfarnol ac yn nodi'n glir ei chryfderau a nifer o feysydd i'w gwella
- Mae'r cynllun datblygu ysgol newydd yn cysylltu'n dda â deilliannau hunanarfarniad yr ysgol o safonau, ac mae'n canolbwyntio'n dda ar feysydd allweddol, fel gwella cyrhaeddiad disgyblion a chynllunio ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu disgyblion
- Mae'r ysgol wedi sefydlu ystod eang o bartneriaethau effeithiol sy'n fuddiol i ddisgyblion

Fodd bynnag:

- Nid yw mentrau sydd newydd eu sefydlu a strwythurau staffio wedi cael effaith gadarnhaol eto ar godi safonau cyflawniad cyffredinol
- Er y bu gwelliannau diweddar iawn mewn agweddau ar y ddarpariaeth, ni fu amser digonol i fynd i'r afael â meysydd pwysig y mae angen eu gwella
- Nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad blaenorol
- Dim ond gwerth digonol am arian a gynigir gan yr ysgol

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion mwy abl yn cyflawni eu potensial

A2 Gwella presenoldeb disgyblion

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ac i gymhwyso'u medrau llythrennedd mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm

A4 Gwella darpariaeth y Cyfnod Sylfaen i gynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol

A5 Seilio asesiadau athrawon ar arfarniadau cadarn o safonau disgyblion

A6 Datblygu ymglymiad strategol y pennaeth a'r corff llywodraethol mewn gwella'r ysgol

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar lefel a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn unol â'u gallu. Ar draws yr ysgol, fodd bynnag, nid yw disgyblion â gallu uwch yn cyflawni gystal ag y gallent. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau addysg unigol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cydweithio ac yn ymateb yn effeithiol i dasgau a osodir gan eu hathro.

Ar draws yr ysgol, mae medrau gwrando da gan bron pob un o'r disgyblion, ac maent yn gwrando'n astud ar eu hathrawon ac ar ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda o ran cofio'u dysgu blaenorol yn gywir ac maent yn ymateb yn effeithiol i gwestiynau athrawon. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus ac yn defnyddio ystod addas o eirfa yn bwrpasol i gyfleu eu syniadau ac i ymateb i gwestiynau a chyfarwyddiadau. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn gallu trafod eu syniadau'n fanylach, gyda llawer o ddisgyblion mwy abl yn defnyddio geirfa estynedig yn effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau cyfathrebu eithriadol gan lawer o ddisgyblion, ac maent yn trafod testunau yn hyderus gydag eraill. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth leisio'u barnau a thrafod agweddau ar eu gwaith, er enghraifft wrth drafod p'un a ddylai ystafelloedd dosbarth modern fynd yn ôl i fod yn ystafelloedd dosbarth Fictoraidd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif o ddisgyblion yn darllen yn dda yn gyson â'u hoedran a'u gallu. Maent yn rhoi ystyriaeth briodol i atalnodi pan fyddant yn darllen yn uchel, ac yn gyffredinol maent yn darllen gyda rhuglder a goslef dda. Mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau yn effeithiol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda wrth ddarllen. Mae llawer o ddisgyblion mwy abl yn defnyddio ystod o ddeunydd darllen sy'n eu herio'n dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio medrau darllen ar lefel uwch yn effeithiol wrth adalw gwybodaeth o ystod o destunau, er enghraifft wrth ymchwilio i fywyd yn y fyddin Rufeinig. Mae'r disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn trafod cynnwys amrywiaeth eang o lyfrau gydag aeddfedrwydd, ac mae ganddynt wybodaeth eang am ystod o awduron.

Ar draws yr ysgol, mae cynnydd mewn ysgrifennu yn amrywio gormod. Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd pwrpasol wrth ddatblygu'u medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio priflythrennau at atalnodau llawn yn gywir mewn dilyniannau o frawddegau. Mae disgyblion mwy abl yn dechrau defnyddio geirfa ddiddorol a sillafu mwyafrif o eiriau y maent yn eu defnyddio'n gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu at amrywiaeth o ddibenion ac yn dangos

dealltwriaeth dda o'r mathau gwahanol o ysgrifennu. Mae llawer o ddisgyblion yn rhan isaf cyfnod allweddol 2 is yn cynhyrchu gwaith sydd wedi'i drefnu'n dda ac yn llawn dychymyg. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn ysgrifennu ac yn cyflwyno'u gwaith yn ddestlus. Nid yw disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n estynedig. Yn benodol, nid ydynt yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn ddigon da mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm. O ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion yn cyflawni gystal ag y gallent yn eu gwaith ysgrifenedig.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd arwahanol yn dda ac maent yn dechrau cymhwyso'r medrau hyn ar draws meysydd dysgu eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o rifau yn dda i ddatrys problemau yn ymwneud ag arian. Er enghraifft, maent yn cyfrifo cost bariau siocled o ffatri Willy Wonka. Mae dealltwriaeth gadarn o amser gan lawer o ddisgyblion, ac mae mwyafrif yn gallu trosi o amserau analog i amserau digidol yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dewis uned fesur briodol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth fesur tymheredd a hylif. Mae llawer o ddisgyblion yn didoli ac yn dosbarthu gwrthrychau'n llwyddiannus, ac yn defnyddio'r canlyniadau i gynhyrchu graff priodol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau rhifedd llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae dealltwriaeth gadarn o werth lle gan y rhan fwyaf ohonynt. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion abl yn lluosi ac yn rhannu degolion yn gywir, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ffracsiynau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u gwybodaeth am rif yn llwyddiannus wrth ddatrys problemau go iawn. Mae llawer o ddisgyblion yn dethol ac yn dehongli gwybodaeth o graffiau wrth drafod sgorau gemau pêl-droed yng Nghwpan Ewrop. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn briodol ar draws y cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae medrau siarad a gwrando disgyblion yn Gymraeg yn datblygu'n briodol. Mae'r disgyblion hyn yn gwrando ac yn ymateb i gyfarwyddiadau, ac yn defnyddio cyfarchion syml yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn deall cyfarwyddiadau a Chymraeg achlysurol a ddefnyddir gan staff. Mewn gwersi, mae disgyblion yn gofyn ac yn ateb ystod o gwestiynau syml yn dda. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 is yn gofyn cwestiynau i ganfod ffeithiau am ei gilydd er mwyn creu ysgrif bortreadau. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio ystod addas o batrymau brawddegau i gyfranogi mewn sgyrsiau byr. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn darllen ac ysgrifennu'n estynedig yn effeithiol. Fodd bynnag, cyfyngedig yw defnydd y rhan fwyaf o ddisgyblion o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae safonau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'u medrau yn bwrpasol. Maent yn dechrau tynnu lluniau a defnyddio amrywiaeth o gymwysiadau ar gyfrifiadur llechen i gefnogi'u dysgu. Mae'r disgyblion mwy abl yn dechrau symud tegan rhaglenadwy o amgylch gardd rithwir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r rhyngrwyd yn fedrus i ymchwilio i wybodaeth fel rhan o'u testun, ac yn ei chyflwyno mewn ffordd ddiddorol. Er enghraifft, maent yn cynhyrchu cyflwyniad PowerPoint i ddangos y mathau gwahanol o ysgolion yn oes Fictoria. Maent yn dechrau creu graffiau a dehongli cronfeydd data yn addas. Mae dealltwriaeth sicr o e-ddiogelwch gan y rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn llythrennedd a rhifedd o ran y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) wedi gosod yr ysgol yn y 25% gwaelod a'r 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol o ran y deilliant uwch (deilliant 6) mewn iaith a mathemateg wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 50% uwch a'r 25% gwaelod.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) wedi amrywio gryn dipyn, gan symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 25% gwaelod o ysgolion tebyg mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch wedi gosod yr ysgol yn y 50% is a'r 25% gwaelod yn bennaf mewn Saesneg a mathemateg. Mae perfformiad yr ysgol mewn gwyddoniaeth wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 25% gwaelod o gymharu ag ysgolion tebyg.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, ac maent yn gwybod at bwy i droi i gael cymorth os oes angen. Mae bron yr holl ddisgyblion yn foesgar ac yn gwrtais i'w gilydd ac oedolion. Mae'r rhan fwyaf yn dangos gofal a chonsyrn am eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall yr angen i gadw'n iach, er enghraifft trwy yfed dŵr, bwyta ffrwythau a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn ystod addas o weithgareddau allgyrsiol sy'n eu hannog i fod yn weithgar.

Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn eithriadol. Maent yn dangos brwdfrydedd a diddordeb yn ystod gwersi. Mae gan lawer o ddisgyblion syniad clir o'u cryfderau, ac mae disgyblion hŷn yn nodi eu targed eu hunain er mwyn gwella eu gwaith.

Mae cyngor yr ysgol, y clwb eco a llysgenhadon yr ysgol yn cynrychioli barnau disgyblion yn dda. Maent yn dechrau chwarae rhan briodol mewn gwella'r ysgol. Er enghraifft, maent wedi datblygu siarter i wella lles eu cyd-ddisgyblion yn llwyddiannus yn ystod egwyliau chwarae.

Mae llawer o ddisgyblion yn chwarae rhan weithgar yn y gymuned leol ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu synnwyr o gyfrifoldeb cymdeithasol. Er enghraifft, maent yn gweithio gydag elusen leol i lanhau'r traethau. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn magu hyder wrth berfformio gyda chôr yr ysgol yn y canolfannau celfyddydau lleol.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae presenoldeb disgyblion yn gyffredinol wedi gosod yr ysgol yn y 25% gwaelod o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn ddiweddar, mae cyfradd bresenoldeb gyffredinol disgyblion wedi gwella, gan osod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn brydlon.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

At ei gilydd, mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy’n bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a llawer o agweddau ar y Cyfnod Sylfaen. Mae athrawon yng nghyfnod allweddol 2 yn cynllunio ystod addas o weithgareddau difyr sy’n ennyn diddordebau’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Ar gyfer y disgyblion iau yn y Cyfnod Sylfaen, ceir pwyslais addas ar ddysgu drwy ystod o brofiadau ymarferol. Fodd bynnag, mae ystod y profiadau dysgu creadigol ac ysgogol ar gyfer y disgyblion hŷn yn y Cyfnod Sylfaen yn anghyson, ac yn gyfyngedig ar adegau. Nid oes digon o gyfleoedd i’r disgyblion hyn ddatblygu’u medrau dysgu annibynnol yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt.

Mae’r ysgol yn dechrau ymateb yn briodol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Fodd bynnag, nid yw’r ysgol yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion bob amser i gymhwyso’r medrau hyn ar draws y cwricwlwm. Cyfleoedd cyfyngedig sydd i ddisgyblion ysgrifennu’n greadigol neu’n estynedig mewn meysydd dysgu eraill. Mae’r cynllunio i ddatblygu medrau TGCh disgyblion ar draws yr ysgol yn briodol. Mae’r ysgol yn cynllunio ystod o raglenni ymyrraeth yn llwyddiannus i gefnogi anghenion disgyblion unigol yn dda. Mae ystod fuddiol o weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau preswyl yn cyfoethogi dysgu’r disgyblion.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion. Er enghraifft, mae’r Criw Cymraeg yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddefnydd disgyblion o’r Gymraeg y tu allan i amgylchedd yr ystafell ddosbarth. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ddysgu am ddiwylliant Cymru trwy gyfranogi yn eisteddfod yr ysgol a thrwy ymweliadau addysgol.

Mae’r clwb eco yn gweithio’n frwd i annog disgyblion i weithredu’n gynaliadwy, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth disgyblion o faterion amgylcheddol. Mae nifer o weithgareddau ysgol gyfan yn galluogi’r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu dealltwriaeth dda o faterion byd-eang. Er enghraifft, mae disgyblion wedi cymharu bywydau plant ffoaduriaid gyda’u bywydau eu hunain, ac wedi cyfranogi mewn amryw o ddigwyddiadau codi arian i gefnogi ffermwyr Affrica.

**Addysgu: Digonol**

Mae perthynas dda rhwng yr holl ddisgyblion a’r staff.

Mewn mwyafrif o ddosbarthiadau, lle mae’r addysgu yn gyson dda neu’n well, mae gwersi’n cynnal diddordeb a brwdfrydedd disgyblion yn llwyddiannus. Mae amcanion dysgu clir i lawer o wersi ac maent yn adeiladu’n dda ar ddysgu blaenorol. At ei gilydd, mae gan athrawon a staff cymorth ddisgwyliadau uchel. Mae llawer o athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau’n briodol i ddiwallu anghenion dysgu disgyblion, ac i ddatblygu medrau meddwl yn effeithiol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cynllunio tasgau sy’n ddigon heriol i sicrhau bod disgyblion mwy abl yn gwneud digon o gynnydd. Yn y Cyfnod Sylfaen, nid yw’r cynllunio ar gyfer y meysydd dysgu gwahanol yn canolbwyntio digon bob tro ar ddatblygu medrau disgyblion ac nid yw’n hyrwyddo medrau annibynnol disgyblion.

Mae pob aelod o staff yn rhoi adborth llafar effeithiol i ddisgyblion ac yn ymyrryd yn bwrpasol pan fydd angen. Yn y mwyafrif o ddosbarthiadau, mae marcio'r athrawon yn helpu disgyblion i wella eu gwaith. Mae llawer o athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Fodd bynnag, mae'r defnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn anghyson ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn defnyddio system olrhain yr ysgol yn briodol i nodi cyflawniadau disgyblion. Nid yw'r broses hon yn ddigon cadarn, fodd bynnag, i sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn gywir. O ganlyniad, nid yw asesiadau athrawon bob amser yn cyfateb i'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn gwersi ac mewn llyfrau.

Mae adroddiadau i rieni yn bodloni gofynion statudol. Maent yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am gyflawniadau disgyblion ac yn rhoi targedau addas ar gyfer gwella eu medrau llythrennedd a rhifedd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd croesawgar a gofalgar sy'n addysgu disgyblion i ddangos gofal a pharch at ei gilydd ac oedolion. Mae'r dull effeithiol o ddatblygu lles disgyblion yn eu hannog i fod yn ddysgwyr hyderus gydag agweddau cadarnhaol iawn at yr ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol, diwylliannol a chymdeithasol disgyblion yn dda trwy waith testun a gweithredoedd priodol o gyd-addoli. Mae cysylltiadau pwrpasol gan yr ysgol ag asiantaethau arbenigol, fel y gwasanaeth lleferydd ac iaith a'r gwasanaeth seicoleg addysgol, i ddiwallu anghenion disgyblion. Mae gan yr ysgol weithdrefnau clir i hyrwyddo presenoldeb, er mai cyfyngedig yw effaith hyn.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol ac yn galluogi'r disgyblion hyn i wneud cynnydd da. Mae athrawon yn nodi anghenion disgyblion yn gynnar ac yn darparu cymorth effeithiol ar eu cyfer. Mae staff a rhieni yn monitro ac yn adolygu cynlluniau dysgu unigol disgyblion yn bwrpasol. Caiff disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gymorth gwerthfawr gan gynorthwywyr addysgu yn yr ystafell ddosbarth a thrwy raglenni ymyrraeth. Un enghraifft dda yw'r cynnydd a wneir gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau darllen.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Ceir ethos cynhwysol yn yr ysgol, ac mae'n cynnig cyfle cyfartal i bawb. Mae'r ysgol yn gymuned glòs ac mae awyrgylch cynnes a hamddenol rhwng staff a disgyblion. Mae disgyblion yn dangos parch a chonsyrn at ei gilydd ac at y rhai sy'n llai ffodus na

nhw eu hunain. Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb cymdeithasol ac amrywiaeth yn dda.

Mae adeilad yr ysgol a'r safle mewn cyflwr da ac yn ddiogel. Caiff y gofod yn adeilad yr ysgol ei ddefnyddio'n dda ar ôl ad-drefnu ystafelloedd dosbarth er mwyn gwella'r amgylchedd addysgu. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn lliwgar gydag adnoddau pwrpasol i gefnogi'r cwricwlwm. Mae'r ysgol yn defnyddio'r ardal gymunedol eang yn effeithiol ar gyfer y llyfrgell sydd ag adnoddau da, yn ogystal â gweithgareddau grŵp. Mae'r ysgol yn dathlu gwaith a chyflawniadau'r disgyblion yn briodol, drwy arddangos eu gwaith yn ddeniadol mewn ystafelloedd dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Mae ystod bwrpasol o adnoddau dysgu ar gael i gynorthwyo dysgu'r disgyblion.

Mae'r ardal awyr agored yn adnodd cyffrous iawn sy'n darparu amgylchedd ysgogol ac amrywiol i gyfoethogi dysgu'r disgyblion. Mae'r ardal coetir ddatblygedig yn darparu cyfleoedd arbennig o dda i'r disgyblion ehangu eu medrau meddwl a chreadigol.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol gan y pennaeth sydd newydd ei benodi. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn bwrpasol gyda'r staff, llywodraethwyr a disgyblion. Mae disgwyliadau uchel gan y pennaeth ar gyfer dyfodol yr ysgol, ac mae ganddo ddealltwriaeth glir o'i chryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Mewn cyfnod amser byr, mae wedi cyflwyno nifer o fentrau sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth, er enghraifft sefydlu offeryn cynllunio ac asesu a phroffiliau disgyblion unigol.

Mae'r pennaeth wedi egluro rolau a chyfrifoldebau yn briodol, er enghraifft drwy ailddiffinio disgrifiadau swyddi. O ganlyniad, mae staff yn dechrau ystyried materion ysgol gyfan a chyfranogi mwy yn y broses benderfynu. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu timau cwricwlwm ac ethos o gydweithio ymhlith y staff cyfan. Fodd bynnag, nid yw'r strwythurau hyn sydd newydd eu sefydlu wedi cael effaith gadarnhaol eto ar godi safonau cyflawniad cyffredinol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad y staff addysgu. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn ar waith yn llawn eto i fesur eu heffaith ar safonau. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n dda erbyn hyn ar godi safonau ac ar faterion a nodwyd yn y cynllun datblygu newydd, er enghraifft rhoi'r proffiliau disgyblion newydd ar waith. Mae hyn eisoes wedi arwain at fwy o gysondeb yn y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac mae'n dechrau rhoi ffocws addas ar wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac maent yn gefnogol i'r ysgol. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cael digon o effaith ar gyfeiriad a gwaith yr ysgol, ac nid ydynt wedi herio ei harweinwyr yn gadarn. Maent yn dechrau chwarae rhan fwy

strategol erbyn hyn yn arfarnu effaith camau a gymerir gan yr ysgol, ac maent yn fwy gwybodus ynglŷn â pherfformiad disgyblion.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r pennaeth yn dechrau datblygu prosesau pwrpasol ar gyfer hunanarfarnu. Mae adroddiad hunanarfarnu mwyaf diweddar yr ysgol ar safonau yn arfarnol ac yn nodi'n glir ei chryfderau a nifer o feysydd i'w gwella. Caiff data ei ddadansoddi'n dda, a rhoddir ystyriaeth dda i'r modd y mae deilliannau disgyblion yn cymharu â deilliannau ysgolion eraill, yn lleol ac yn genedlaethol. Mae ychydig o feysydd y nodwyd ar gyfer eu gwella eisoes yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar godi safonau, er enghraifft mireinio cynlluniau ysgol gyfan a datblygu mwy o gysondeb yn y marcio. Mae staff a disgyblion yn dechrau cyfrannu'n bwrpasol at y broses hunanarfarnu. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ystyried barnau llywodraethwyr a rhieni yn gyfyngedig.

Mae cynllun datblygu presennol yr ysgol yn cysylltu'n dda â deilliannau hunanarfarniad yr ysgol o safonau. Mae'r cynllun yn cynnwys nifer o dargedau sydd â ffocws clir ar feysydd dynodedig i'w gwella, fel perfformiad disgyblion mwy abl ac ansawdd cynlluniau athrawon. Mae gan bob targed feini prawf llwyddo addas, ac maent yn dynodi'r unigolyn sy'n gyfrifol am bob cam gweithredu, y costau sy'n gysylltiedig â'r cynigion ac amserlen realistig ar gyfer cwblhau. Mae'r fersiwn 'cyfeillgar i ddisgyblion' o gynllun datblygu'r ysgol yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion hŷn o dargedau'r ysgol. Mae'n rhy gynnar i fesur effaith y ddogfen hon eto.

Er y bu gwelliannau diweddar iawn mewn agweddau ar y ddarpariaeth, ni fu amser digonol i fynd i'r afael â meysydd pwysig y mae angen eu gwella. Nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu ystod eang o bartneriaethau effeithiol sydd o fudd i'r disgyblion. Mae cysylltiadau cryf gyda rhieni, ac yn ddiweddar, cyfathrebu effeithiol a rheolaidd. Mae'r gymdeithas rhieni-athrawon weithgar wedi cefnogi'r ysgol yn dda drwy godi arian i ddarparu adnoddau ychwanegol ar gyfer disgyblion, fel offer technoleg gwybodaeth. Mae ymweliadau gwirfoddol rheolaidd gan rieni yn gwella'r cwricwlwm celf, cerddoriaeth a gwyddoniaeth, ac yn helpu i wella medrau disgyblion yn y meysydd hyn.

Mae'r ysgol yn chwarae rhan weithgar yn y gymuned leol ac mae'r cysylltiadau cryf yn darparu profiadau buddiol i ddisgyblion. Mae cysylltiadau agos gyda gweithiwr ieuenctid Cristnogol lleol yn hyrwyddo lles ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol. Mae swyddog cyswllt cymunedol yr heddlu yn arwain sesiynau ar e-ddiogelwch, seiber-fwlio a pheryglon camddefnyddio alcohol a chyffuriau. Mae cysylltiadau gwerthfawr gan yr ysgol â grwpiau theatr lleol sy'n cynnig cyfleoedd i ddisgyblion berfformio, mewn drama Shakespeare er enghraifft. Mae gwasanaeth cyhoeddus lleol sy'n gwarchod y morlin yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau cymdeithasol a medrau bywyd disgyblion ac yn eu hannog i ddysgu am eu hardal leol.

Mae’r ysgol yn darparu lleoliadau profiad gwaith i gynorthwywyr addysgu dan hyfforddiant o’r coleg lleol, sy’n rhoi cymorth unigol a chymorth grŵp ychwanegol i ddisgyblion. Mae trefniadau pontio sefydledig gyda’r ysgol uwchradd bartner yn sicrhau bod disgyblion yn hyderus pan fyddant yn symud i’r cyfnod nesaf o’u haddysg.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a chynorthwywyr addysgu â chymwysterau da i gyflwyno’r cwricwlwm. Yn gyffredinol, mae’n defnyddio staff yn bwrpasol er mwyn gwneud y defnydd gorau o’u medrau penodol. Caiff staff cymorth ddylanwad cadarnhaol ar ansawdd profiadau dysgu disgyblion.

Mae’r ysgol yn dechrau datblygu fel cymuned ddysgu bwrpasol. Mae arsylwi arfer dda mewn addysgu a dysgu yn fewnol wedi galluogi athrawon i arfarnu eu dulliau addysgu eu hunain. Mae’r ysgol yn darparu hyfforddiant i staff i ymateb i anghenion a nodwyd drwy’r broses rheoli perfformiad. Er enghraifft, mae hyfforddiant athrawon yn y defnydd o ‘dasgau cyfoethog’ wedi effeithio’n llwyddiannus ar wella medrau meddwl disgyblion. Ceir trefniadau priodol yn yr ysgol ar gyfer cyflenwi yn ystod amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon. Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar les disgyblion trwy ddarparu gweithgareddau penodol, fel dysgu yn yr awyr agored.

Mae’r pennaeth a’r corff llywodraethol wedi dechrau monitro a rheoli’r gwariant yn effeithiol. Maent yn cynllunio ac yn defnyddio cyllid yr ysgol yn briodol i wella medrau llythrennedd a rhifedd a lles disgyblion targedig. Mae gwariant yr ysgol yn cysylltu’n dda â’r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu mwyaf diweddar ar gyfer gwella safonau a lles disgyblion.

O ystyried ansawdd darpariaeth yr ysgol a’r deilliannau a gyflawnir gan ddisgyblion, mae’r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6702217 - KNELSTON PRIMARY**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 127 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 0.3 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 18 | 16 | 15 | 11 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 83.3 | 93.8 | 93.3 | 63.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 16 | 15 | 11 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.9 | 93.8 | 93.3 | 63.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 11.1 | 31.3 | 53.3 | 45.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 16 | 15 | 11 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.9 | 93.8 | 93.3 | 63.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 5.6 | 25.0 | 46.7 | 27.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 16 | 15 | 11 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.9 | 93.8 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 83.3 | 68.8 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6702217 - KNELSTON PRIMARY**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 127 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 0.3 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 12 | 20 | 16 | 11 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 100.0 | 95.0 | 100.0 | 81.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 20 | 16 | 11 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 95.0 | 100.0 | 81.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 66.7 | 35.0 | 43.8 | 27.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 20 | 16 | 11 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 95.0 | 100.0 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 58.3 | 35.0 | 43.8 | 18.2 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 3 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 20 | 16 | 11 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 95.0 | 100.0 | 81.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 58.3 | 45.0 | 62.5 | 27.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 55 | 55<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 55 | 53<br>96% | 2<br>4% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 55 | 53<br>96% | 2<br>4% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 55 | 53<br>96% | 2<br>4% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 53 | 50<br>94% | 3<br>6% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 55 | 54<br>98% | 1<br>2% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 55 | 55<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 55 | 52<br>95% | 3<br>5% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 55 | 49<br>89% | 6<br>11% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 55 | 52<br>95% | 3<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 53 | 48<br>91% | 5<br>9% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 54 | 44<br>81% | 10<br>19% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

# Ymatebion i'r holiadur i rieni

yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 48 | 19 | 21 | 8 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 40% | 44% | 17% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 49 | 35 | 14 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 49 | 30 | 19 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 61% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 46 | 18 | 21 | 7 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 39% | 46% | 15% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 49 | 28 | 20 | 1 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 57% | 41% | 2% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 41 | 14 | 20 | 7 | 0 | 8 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 34% | 49% | 17% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 45 | 16 | 25 | 3 | 1 | 4 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 36% | 56% | 7% | 2% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 43 | 10 | 15 | 14 | 4 | 5 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 23% | 35% | 33% | 9% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 44 | 22 | 16 | 6 | 0 | 4 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 50% | 36% | 14% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 45 | 26 | 17 | 2 | 0 | 4 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 58% | 38% | 4% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 49 | 32 | 16 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 65% | 33% | 2% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 41 | 16 | 15 | 10 | 0 | 7 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 39% | 37% | 24% | 0% | | |
| | | 56% | 39% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 46 | 11 | 17 | 15 | 3 | 3 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 24% | 37% | 33% | 7% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 47 | 20<br>43% | 16<br>34% | 8<br>17% | 3<br>6% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 40 | 11<br>28% | 12<br>30% | 13<br>32% | 4<br>10% | 9 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 46 | 21<br>46% | 23<br>50% | 2<br>4% | 0<br>0% | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 34 | 15<br>44% | 10<br>29% | 7<br>21% | 2<br>6% | 12 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 48 | 16<br>33% | 22<br>46% | 10<br>21% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 41 | 15<br>37% | 18<br>44% | 6<br>15% | 2<br>5% | 7 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Eleri Hurley | Arolygydd Cofnodol |
| Geoff Cresswell | Arolygydd Tîm |
| Helen Potts | Arolygydd Lleyg |
| Thomas Flood | Arolygydd Cymheiriaid |
| Phil Jenkins | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.